## Amodau Defnyddio Gogledd Cymru 2009 (fersiwn 1.2)

### Rhybudd Hawlfraint

Mae'r deunydd sydd wedi'i gynnwys ar y safle hwn, gan gynnwys y gosodiad a'r dyluniad, wedi'i warchod gan hawlfraint. Caniateir atgynhyrchu'r deunydd sy'n ymddangos ar y wefan hon (heblaw am fathodyn yr Heddlu, logos a chynllun y safle hwn) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Nid yw'r hawl i atgynhyrchu deunydd y wefan hon yn ymestyn i unrhyw ddeunydd sy'n cael ei nodi fel hawlfraint trydydd parti. Mae'n rhaid cael hawl i atgynhyrchu deunydd o'r fath gan y dalwyr hawlfraint perthnasol. Mae Bathodyn yr Heddlu yn nod masnach. Dylid cael ein caniatâd ni i'w ddefnyddio.

### Gwadiad

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn darparu'r safle hwn ar sail "fel mae" ac nid yw'n cyflwyno sylwadau na gwarantau o unrhyw fath o ran y dogfennau sydd ar gael ar y wefan hon na'i chynnwys ac mae'n ymwrthod â phob sylw a gwarant a gyflwynir. Nid yw Heddlu Gogledd Cymru yn cyflwyno unrhyw sylwadau na gwarantau ynglŷn â chywirdeb, cyflawnrwydd nac addasrwydd at unrhyw ddiben y wybodaeth a'r graffigwaith perthnasol ar y wefan. Tra gwnaed pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y deunydd sydd wedi'i gynnwys ar y wefan hon, fe allai'r wybodaeth sydd ar y safle gynnwys anghywirdebau, camgymeriadau neu wallau. Mae holl atebolrwydd Heddlu Gogledd Cymru am unrhyw anghywirdebau, camgymeriadau neu wallau wedi'i eithrio hyd eithaf yr hyn a ganiateir gan y gyfraith. Ni fydd Heddlu Gogledd Cymru yn gyfrifol am safon na chynnwys unrhyw ddolenni allanol o'r wefan hon.

### Rhybudd Prosesu Teg

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydnabod y gellir defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda ni drwy Facebook at ddibenion plismona. Petai'r angen hwn yn codi, byddwn yn ceisio sicrhau bod data personol unrhyw unigolyn yn cael ei drin mewn modd diogel ac yn unol â'r gyfraith. Felly, drwy ymuno gydag a chymryd rhan yng ngrŵp Tîm Plismona Cymdogaeth Heddlu Gogledd Cymru, rydych yn rhoi eich caniatâd i ni gadw a defnyddio eich data personol yn y ffordd yma. Ymwelwch â gwefan Heddlu Gogledd Cymru os hoffech fwy o wybodaeth am y ffordd mae Heddlu Gogledd Cymru yn trin ac yn defnyddio data personol.

Drwy ymuno â'n cymuned a rhyngweithio gyda ni ac aelodau eraill ein grŵp, yn ychwanegol at amodau a thelerau'r Darparwyr Rhyngweithio Cymdeithasol, rydych hefyd yn cytuno i gadw at ein rheolau a chanllawiau sylfaenol a nodwyd. Ni ddylech rannu na phostio unrhyw ddeunydd amhriodol nac anghyfreithlon.

Cofiwch, gallai unrhyw un yn y byd weld y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y Rhyngrwyd. Felly, ni ddylech roi unrhyw wybodaeth bersonol am unigolyn arall ar y Rhyngrwyd. Os hoffech riportio rhywbeth neu os hoffech drafod rhywbeth sensitif gyda ni sy'n ymwneud â chi eich hun neu rywun arall, ffoniwch ni ar 0845 607 1002 neu siaradwch â'ch cynrychiolydd plismona lleol. Fel dewis arall, os hoffech riportio trosedd yn ddienw, ffoniwch CRIMESTOPPERS ar 0800 555 111.

Cysylltwch â northwalespolice@north-wales.police.uk os ydych yn anhapus ag unrhyw beth y byddwch yn ei weld fel rhan o'n tudalennau grŵp.

**Ni ddylid defnyddio'r e-bost hwn mewn argyfwng** nac i riportio neu hysbysu Heddlu Gogledd Cymru am drosedd. Os oes angen cymorth yr Heddlu arnoch mewn **ARGYFWNG**, dylech ffonio 999. Mae'r system hon ar gyfer gwir argyfyngau yn unig, ble mae bywyd neu eiddo mewn perygl uniongyrchol.

Defnyddiwch y gwasanaeth yn gall fel bo'r unigolion hynny sydd â gwir argyfwng yn gallu cael ateb eu galwad. Fodd bynnag, os oes gennych broblem neu ymholiad, neu eich bod yn rhan o ddigwyddiad

sydd angen sylw'r heddlu ond nad yw'n argyfwng, ffoniwch y rhif isod: **DI-FRYS: 0845 607 1001 (Llinell Gymraeg) neu 0845 607 1002 (Llinell Saesneg)**